

Tasg: Chwiliwch am BOB rhagenw yn y darn a thrafod pa fath o arddodiad, person, a threigladd.

BBC Cymru Fyw (14 Tachwedd 2018)

Gallai Brexit olygu oedi i ddeddfwriaeth ar yr iaith Gymraeg, yn ôl y gweinidog sy'n gyfrifol amdani.

Dywedodd Eluned Morgan wrth ACau ei bod yn "gweithio tuag at" gyhoeddi mesur erbyn 2020, ond bod "popeth lan yn yr awyr".

Mae ymgyrchwyr yn dweud y gallai hynny godi amheuan ynghylch a fydd y ddeddfwriaeth yn barod cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021. Llynedd fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno cynlluniau i ddiddymu swydd Comisiynydd y Gymraeg, a sefydlu comisiwn yn lle hynny i hybu'r iaith.

'Angen ymrwymiad'

Ni chafodd mesur ar yr iaith Gymraeg ei gynnwys yng nghynlluniau'r llywodraeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ym mhwyllgor diwylliant y Cynulliad ddydd Mercher, gofynnwyd i'r Farwnes Morgan a fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ym flwyddyn olaf y tymor Cynulliad presennol.

"Dyna'r cynllun. Rydyn ni'n gweithio drwyddi ar hyn o bryd. Dyna'r bwriad," meddai.

"Ond dwi'n meddwl bod popeth lan yn yr awyr achos Brexit.

"Does gennym ni ddim syniad beth sy'n mynd i ddigwydd, beth fydd sgil effaith hynny, a sut fydd hynny'n effeithio ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

"Ond y bwriad ar hyn o bryd yw ein bod ni'n gweithio'n galed ar y mesur."

Gofynnodd yr AC Ceidwadol, David Melding: "Onid oes angen i ni gael ymrwymiad cadarn?"

"Nid popeth sy'n gallu cael ei rwystro gan Brexit. Siawns na fyddai hyd yn oed y sgil effeithiau mwyaf od yn ein stopio ni rhag cyflwyno ddeddfwriaeth arwyddocaol ar yr iaith Gymraeg."

Dywedodd Ms Morgan, un o dri sy'n cystadlu am arweinyddiaeth Llafur Cymru: "Ein bwriad yn bendant yw cyflwyno mesur newydd. Rydyn ni'n gweithio ar y peth."

Mae disgwyl i'r comisiynydd presennol, Meri Huws, adael ei swydd ym mis Ebrill.

[illegible]